James Chalmers 1841–1901

Cenhadwr yn Guinea Newydd

Penderfynodd James Chalmers yn ystod ei arddegau y byddai'n mynd yn genhadwr ar ôl iddo glywed llythyr gan genhadwr Cristnogol yn Fiji yn cael ei ddarllen yn ei eglwys. Geiriau clo'r pregethwr oedd, 'Ys gwn i a oes bachgen yma a fydd maes o law yn mynd â'r Efengyl i'r canibaliaid?'

Ddeng mlynedd yn ddiweddarach hwyliodd Chalmers a'i wraig ifanc i Ynysoedd y De. Llongddrylliwyd hwy ar y ffordd. Wrth iddo gael ei gario i'r lan ar ôl cyrraedd ynys Rarotonga gofynnodd un o'r brodorion iddo mewn Saesneg bratiog, 'What fellow name belong you?' Atebodd ef, 'Chalmers'. Ceisiodd y brawd ddweud yr enw ond yr hyn a ddaeth o'i enau oedd 'Tamate'. Gelwid ef oddi ar hynny wrth yr enw hwnnw ymhlith y brodorion. Ymgartrefodd ar ynys Rarotonga ac yn raddol dysgodd yr iaith ac ymgyfarwyddodd gyda'r diwylliant a'r tywydd.

Ym mis Mai 1877 hwyliodd i Papua, de-ddwyrain Guinea Newydd, a chael croeso i bentref o ganibaliaid sef Suau. Ar y cyfan datblygodd perthynas gyfeillgar rhyngddo a'r brodorion er bod tyndra ambell dro. Ni cheisiodd bregethu iddynt ond byw bywyd syml a da fel Cristion.

Rhoddwyd llong stêm at y gwaith gan y Genhadaeth ac aeth Chalmers ati'n syth i ymweld â 105 o bentrefi er mwyn dechrau gwaith Cristnogol. Gallai fod yn waith peryglus. Mewn un lle fe'u hamgylchynwyd gan filwyr arfog yn bygwth eu lladd oni bai eu bod yn rhoi iddynt gyllyll a bwyeill.

Ym 1879 bu farw ei wraig wedi cyfnod hir o salwch ac am gyfnod bu mewn galar dwys. Ond yn hytrach na chael seibiant o'r gwaith symudodd i Port Moresby i weithio yn galetach. Dywedodd, 'Gadewch i mi gladdu fy ngalar yng ngwaith Crist.' Erbyn hyn roedd yn argyhoeddedig mai ei waith ef oedd bod yn rhagredegydd, yn paratoi'r ffordd er mwyn i eraill ei ddilyn yn y dyfodol. Aeth ati i greu perthynas gyfeillgar gyda'r

gwahanol lwythau. Daeth y bobl leol i'w barchu yn bennaf oherwydd ei ddewrder. Byddai'n cael ei wahodd i siarad yn rhai o'r pentrefi a phregethai'n achlysurol mewn temlau paganaidd. Ar ddiwedd un o'r cyfarfodydd dywedodd y bobl wrtho, 'Dim mwy o ymladd, Tamate, dim mwy o fwyta pobl. Fe geisiwn heddwch.' Erbyn 1882 gallai Chalmers ddweud nad oedd unrhyw 'ffwrneisi canibalaidd, gloddestau, cnawd dynol nac awydd am benglogau' yn yr ardal lle roedd yn gweithio.

Dychwelodd Chalmers ddwywaith i Loegr ar wyliau a hynny ym 1886 a 1894. Pan ddaeth teimlai orfodaeth i ddychwelyd yn ôl gan ddweud, 'Ni allaf orffwyso gyda chymaint o filoedd o anwariaid wrth ein hymyl heb unrhyw adnabyddiaeth o Dduw.' Ar 7 Ebrill 1901 hwyliodd gydag Oliver Tompkins ac ychydig o gynorthwywyr i Ynys Goaribari. Trannoeth aethant i'r lan i ymweld â'r brodorion, ond cipiodd rhai rhyfelwyr eu llong. Daliwyd Chalmers a Tompkins ac aethpwyd â hwy i adeilad mawr gerllaw. Yno cawsant eu curo i farwolaeth gyda phastynau cerrig, torrwyd eu pennau i ffwrdd a darniwyd eu cyrff yn barod i'w coginio.